CYNGOR BRO MORGANNWG

# Polisi Derbyn i Ysgolion 2023/2024

## Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau



## MAES YMGYNGHORI PERTHNASOL

Yn unol â Chod Statudol Derbyn i Ysgolion (Gorffennaf 2013), rhaid i awdurdodau derbyn ymgynghori gydag “ardaloedd perthnasol”. Maen nhw fel a ganlyn:

- Corff llywodraethu’r ysgolion perthnasol.
- Awdurdodau Lleol cyfagos.
- Awdurdodau derbyn ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn yr ardal berthnasol.
- Cyrff Llywodraethu pob ysgol arall yn yr ardal berthnasol (h.y. ysgolion cymunedol a gwirfoddol a rheoli sydd heb bwerau derbyn wedi eu dirprwyo).
- Yn achos ysgolion â chymeriad crefyddol, y person neu’r corff sy’n cynrychioli’r enwad crefyddol perthnasol.

**Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir**

Y Cyngor yw’r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol a gwirfoddol a reolir. Yr ardal berthnasol ar gyfer ymgynghori ar drefniadau derbyn yw ardal ddaearyddol Cyngor Bro Morgannwg. Pennir hyn gan Reoliadau Addysg (Ardaloedd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999.

## TREFNIADAU DERBYN - CYFLWYNIAD

Y Cyngor yw’r Awdurdod Derbyn ar gyfer holl ysgolion uwchradd, cynradd a meithrin cymunedol a gwirfoddol a reolir Bro Morgannwg. Mae’r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn cymeradwyo pob cais llwyddiannus am dderbyn. Yn achos ysgol wirfoddol a gynorthwyir, yr awdurdod derbyn priodol yw'r corff llywodraethu y dylid cyflwyno'r holl geisiadau derbyn iddo.

Mae’r Cyngor yn cydlynu derbyniadau ar gyfer saith ysgol wirfoddol a gynorthwyir bartner sy’n gweithredu fel eu hawdurdod derbyn eu hunain, sef:

- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Llansanwyr;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Sant Andrew;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Sain Ffraid;
- Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Eglwys yng Nghymru;
- Ysgol Gynradd Babyddol Sant Joseff
- Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Mae’r Cyngor am gyflwyno’r rhaglen yn raddol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir eraill. Credir bod dull cydlynol yn creu system decach a mwy cydradd i ddyrannu lleoedd, a hynny am nifer o resymau;

- Mae trefniadau cydlynol yn rhoi cynnig sengl am le mewn ysgol i rieni;
- Ni fyddai rhieni yn dal eu gafael ar fwy nag un lle mewn ysgol. Mae cynnig lleoedd lluosog yn gwadu lleoedd i rieni eraill, gan atal y lleoedd hynny rhag cael eu cynnig i blant eraill;
- Yn aml, mae ansicrwydd ynghylch pa ddisgyblion fydd yn cychwyn mewn ysgolion, a byddai dull cydlynol yn rhoi mwy o sicrwydd i ysgolion o ran y niferoedd a’r disgyblion fydd yn dechrau yn y dosbarth derbyn.

Bydd y Cyngor yn sicrhau, gymaint ag y gall, y bydd lle mewn ysgol o fewn pellter rhesymol o'r cartref yn cael ei warantu ar gyfer pob disgybl. Bydd trefniadau derbyn yr awdurdod yn galluogi i'r nifer a dderbynnir ysgolion gael ei rheoli'n effeithiol, gyda dalgylchoedd plant yn cael eu dynodi'n flaenoriaeth uchel wrth ddyrannu lleoedd os bydd gormod o geisiadau ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol pan fo hynny'n bosibl.

**Newidiadau I,r gyfraith ar dderb o ganlyniad I weithredu Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgyu ac Addysg Ychwanegol (Cymru) 2018.**

Gellir gweld yr hysbysiad trwy'r ddolen ganlynol:

https://llyw.cymru/newidiadau-ir-gyfraith-ar-drefniadau-derbyn

Mae'r rhybudd I'w ddarllen ochr a chanllawiau a deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar apeliadau derbyn a derbyn yng Nghymru. Fel awdurdod derbyn, rhoddir sylw dyledus i'r newidiadau i'r newidiadau i'r gyfraith sy'n ymwneudd a derbyniadau Ysgol yng ngoleuni Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu ac Addsyg Ychwanwgol (Cymmru) 2018 ("Deddf 2018") nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yn y cod Derbyn Ysgol.

## Nifer Derbyn

Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu Nifer Derbyn cyhoeddedig. Nid oes modd gwrthod cais derbyn i ysgol nes i'r Nifer Derbyn gael ei gyrraedd. Mae'r nifer derbyn cyhoeddedig wedi ei gyfrifo'n unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, sef "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (MCYNg)". Mae'r niferoedd hyn wedi eu seilio ar gapasiti ffisegol ysgolion i gynnal disgyblon, capasiti na ddylid mynd yn uwch nag ef mewn amgylchiadau arferol.

## Rheoliadau Maint Dosbarthiadau Babanod

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno polisi i leihau maint dosbarthiadau ar gyfer plant oed pump, chwech a saith, yn rhan o'i nod gyffredinol i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Mae Adran 1 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 a Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Medi 1998, yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i gyfyngu maint dosbarthiadau plant 5,6 a 7 oed i 30 o Fedi 2001, h.y. plant dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 a 2, ac eithrio pan fo eithriadau wedi eu caniatáu.

Nid oes gofyn i awdurdodau derbyn dderbyn plentyn i ddosbarth babanod pe byddai gwneud hynny'n peidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd i fodloni terfynau maint dosbarthiadau babanod, oherwydd byddai derbyn y plentyn yn gofyn am fesurau i gydymffurfio â'r terfynau hynny a fyddai'n cyfaddawdu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Dim ond pan fo'r nifer derbyn wedi ei gyrraedd y gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn ar sail niwed i faint dosbarth babanod.

**Ceisiadau Hwyr**

Dim ond ceisiadau sydd wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau ar gyfer lle mewn dosbarth derbyn neu drosglwyddo i flwyddyn 7 mewn ysgol uwchradd y gellir eu hystyried ar gyfer y cylch cyntaf o gynigion derbyn. Dylai rhieni, felly, nodi'r dyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod eu cais yn cael ei dderbyn mewn da bryd i'w hystyried ochr yn ochr â phob rhiant arall sy'n gwneud cais yn brydlon. Dim ond ar ôl cwblhau'r cylch cyntaf o geisiadau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Gallai hyn effeithio ar obeithion plentyn o gael ei dderbyn yn ysgol ddewisol y rhieni os, er enghraifft, bydd digon o geisiadau wedi eu derbyn cyn y dyddiad cau a'r Cyngor wedi cyrraedd y nifer derbyn. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, bod pobl sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac a wnaeth cais cyn y dyddiad cau yn cael cynnig lle yn hytrach na disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch na wnaeth eu rhieni wneud cais cyn y dyddiad cau.

Mae'r trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr am le meithrin ychydig yn wahanol yn sgil y broses dderbyn dymhorol. Wedi i'r dyddiad cau fynd heibio, a dyraniadau'r cylch cychwynnol wedi eu gwneud ar gyfer plant sy'n gymwys i ddechrau ym mis Medi, caiff unrhyw geisiadau hwyr eu hychwanegu at y rhestr aros dyraniadau ar gyfer plant iau sy'n cychwyn ym mis Ionawr neu Ebrill, yn nhrefn y meini prawf sydd ar waith pan fo mwy o law nag o leoedd.

Ymhob achos, wedi i ddyraniadau'r cylch cyntaf gael eu gwneud a/neu bob lle sydd ar gael wedi ei gynnig, mae unrhyw geisiadau hwyr yn ymuno a'r rhestr aros neu'r rhestri aros dyraniadau meithrin tymhorol fel y'u blaenoriaethir gan y meini prawf sydd ar waith pan fo mwy o alw nag o leoedd. Os caiff unrhyw leoedd eu cynnig yn yr ysgol yn sgil hynny, byddant yn cael eu cynnig yn ôl y meini prawf hyn. Yn yr achos hwn, byddai ceisiadau dalgylch hwyr yn cael blaenoriaeth dros geisiadau "prydlon" sydd wedi eu categoreiddio'n is o ran y meini prawf ac y gwrthodwyd lle iddynt yn y cylch cyntaf.

**Tystiolaeth Breswyl A Chyfrifoldeb Rhianta a Rennir**

Ymhob achos, rhaid darparu tystiolaeth o fan preswylio parhaol plentyn ar adeg gwneud cais os gofynnir am hynny. Bydd unrhyw le a gynigir ar sail breswyl yn cael ei dynnu yn ôl os nad yw'r plentyn yn preswylio yn y cyfeiriad ar adeg gwneud y cais neu ddechrau'r tymor ysgol mae'r cais yn ymwneud ag ef.

Pan fo rhieni yn rhannu cyfrifoldeb dros blentyn, a'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant am ran o'r wythnos ysgol, y cyfeiriad mae'r plentyn yn byw ynddo am fwyafrif yr wythnos fydd y cyfeiriad cartref (h.y. 4 o 7 diwrnod). Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol yn gefn i'r cyfeiriad y dymuna'r rheini ei ddefnyddio wrth ystyried dyrannu lleoedd.

Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais ar gyfer ysgol benodol ar gyfer plentyn, na fyddai hawl ganddynt gael lle ynddi fel arall, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddileu'r cynnig am le.

**Apeliadau Statudol**

Bydd rhieni yn cael eu hysbysu am ganlyniad eu cais drwy eu dull dewisol fel arfer ar y dyddiad cynnig. Bydd hyn naill ai drwy e-bost, drwy fewngofnodi i'r system gais ar-lein neu drwy lythyr. Os yw rhieni'n anfodlon gyda chanlyniad eu cais i ysgol benodol (ac eithrio meithrin), gellir cyflwyno apêl i Banel Apêl Statudol annibynnol. Mae unrhyw benderfyniad gan y panel yn rhwymo pob parti. Os yw'r apêl yn aflwyddiannus, ni fydd ceisiadau pellach

am le yn yr un ysgol yn cael eu hystyried yn ystod yr un flwyddyn academaidd oni bai fod newidiadau sylweddol a materol yn amgylchiadau'r disgybl/rhiant neu ysgol.

**Rhestrau Aros**

Bydd rhestrau aros yn cael eu cadw ar gyfer ysgolion â mwy o geisiadau nag o leoedd pan fo lle wedi ei wrthod.

O ran dyraniadau blynyddol, bydd ceisiadau yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi'r flwyddyn academaidd ganlynol. Bydd ceisiadau a dderbynnir y tu allan i'r dyraniad blynyddol o leoedd hefyd yn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd tymor perthnasol y cais h.y.,31 ain Rhagfyr, 31 Mawrth a 31 Awst.

Bydd rhestrau aros yn cael eu hadolygu bob tymor. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd, bydd disgwyl i rheini wneud cais pellach am fynediad os ydyn nhw am aros ar y rhestr aros.

**Derbyn i'r Chweched Dosbarth**

Mewn ysgolion cymunedol, y Cyrff Llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu trefniadau derbyn i'r Chweched Dosbarth. Dylid gwneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol felly.

**Proses Dderbyn - Amserlen**

Mae'r amserlen isod yn nodi pob dyddiad sy'n berthnasol i'r trefniadau derbyn ac mae'n ateb gofynion Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Dyddiad Cynnig Cyffredin) (Cymru) 2013 sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau bod llythyrau cynnig ar gyfer ysgolion uwchradd yn cael eu hanfon ar 1 Mawrth neu'r diwrnod gwaith nesaf a llythyrau cynnig cynradd ar 16 Ebrill neu'r diwrnod gwaith nesaf.

| AMSERLEN | Blwyddyn Academaidd 2023/2024 | | |
|---|---|---|---|
| | **Uwchradd - (Blwyddyn 7 cymeriant Medi 2023)** | **Cynradd - (Cymeriant Derbyn Medi 2023)** | **Meithrin - (Medi 2023 cymeriant meithrin)** |
| ALl yn anfon gwybodaeth dderbyn i rieni/ysgolion<br>Gwasanaeth cais ar-lein yn agor | **23 Medi 2022** | **11 Tachwedd 2022** | **27 Ionawr 2023** |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni dewis | **25 Tachwedd 2022** | **20 Ionawr 2023** | **24 Mawrth 2023** |
| Ysgolion Gwirfoddol a Gynhelir/Sefydledig i hysbysu'r ALl o | **3 Chwefror 2023** | **2 Ebrill 2023** | **5 Mai 2023** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ganlyniadau'r broses ymgeisio | | | |
| Canlyniadau'n cael eu trosglwyddo i rieni wnaeth gais i Ysgolion Cymunedol, Gwirfoddol a Gynhelir a Sefydledig | **1 Mawrth 2023** | **17 Ebrill 2023** | **19 Mai 2023** |

## ADDYSG FEITHRIN

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Meithrin Cymunedol a Dosbarthiadau Meithrin a gynhelir ym Mro Morgannwg. Mae gan blant hawl i le meithrin rhan-amser o ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed a **rhaid** iddynt fynychu am bum hanner diwrnod. Ni ellir dyrannu lle meithrin cymunedol neu wedi ei reoli heb gais ffurfiol. Bydd y Cyngor fel arfer yn derbyn plant sy'n dair blwydd oed ar ddechrau'r tymor (1 Medi, 1 Ionawr neu 1 Ebrill) tan i gapasiti cymeradwy'r ysgol gael ei gyrraedd. Lle bo nifer y ceisiadau i gael lle mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, fel y nodir isod, tan i'r capasiti cymeradwy gael ei gyrraedd.

Dylai rhieni hefyd sylwi na fydd gan blant sy'n mynychu ysgol feithrin hawl 'awtomatig' i barhau â'i addysg yn yr un ysgol pan fydd yn symud i fyny i ddosbarth derbyn, boed yn byw yn y dalgylch neu'r tu allan iddo. Bydd yn rhaid i rieni gwblhau ffurflen gais ar gyfer eu hysgol ddewisol (gweler adran Trefniadau Derbyn Addysg Gynradd). Gan nad yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle i blentyn mewn ysgol benodol.

Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais ar gyfer ysgol benodol ar gyfer plentyn, na fyddai hawl ganddynt gael lle ynddi fel arall, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddileu'r cynnig am le.

### Meini Prawf pan fo mwy o alw nag o leoedd meithrin

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion meithrin cymunedol a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion gwirfoddol a reolir. Mae lleoedd yn cael eu dyrannu fesul tymor gan ystyried ceisiadau ar gyfer plant oedd yn dair oed ar neu cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol (31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth).

Bydd plant â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, pan fo'r ysgol wedi ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf sydd ar waith pan fo mwy o alw nag o leoedd. O 1 medi 2021, mae adran 48 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraeth ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os enwir yr ysgol yng nghynllun datblygu unigol y plentyn at ddibenion yr adran honno, sef sicrhau mynediad y plentyn i'r ysgol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol er gwaethaf er gwaethaf y cyfyngiadau ar faint dosbarthiadau babanod a hyd yn oed pe buddai derbyn y plentyn yn arwain at yr ysgol yn fwy na'i rhif derbyn. Mae'r ddyletswydd i dderbyn yn berthnasol bob

amser, gan gynnwys lle mae ysgol wedi'i henwi mewn i'r rownd dderbyn arferol.

Mae pob cais yn cael ei flaenoriaethu'n unol â'r meini prawf gordanysgrifio waeth beth fo'r dyddiad cychwyn gyda'r feithrinfa. Bydd disgyblion sy'n byw yn y dalgylch neu sydd â chysylltiad brawd neu chwaer sy'n gymwys ar gyfer lle'n hwyrach yn y flwyddyn academaidd yn derbyn darpar leoedd cyn i geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch gael eu dyrannu hyd yn oed pan fo'r ceisiadau o'r tu allan i'r dalgylch ar gyfer plant hŷn.

Wedi i ddyraniadau cychwynnol mis Medi gael eu gwneud, bydd unrhyw gynigion hwyr yn cael eu hychwanegu at y rhestr aros/rhestr ddyrannu dymhorol a lleoedd yn cael eu cynnig ar y sail honno. Yn yr achosion hyn, bydd ceisiadau dalgylch hwyr, er enghraifft, yn cael mwy o flaenoriaeth na cheisiadau "prydlon" sy'n gymwys yn ôl meini prawf is.

**Derbyn yn Nhymor yr Hydref** (wedi eu dyrannu ym mis Mai i gychwyn ym mis Medi)

1. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Awst pan fo tystiolaeth wedi ei darparu i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu eu bod wedi derbyn gofal yn flaenorol, gan awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol ac sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni cais. Bydd angen tystiolaeth o'r breswylfa barhaol. Pan fo mwy o alw nag o leoedd yn y categori hwn yn unig, bydd y meini prawf isod, yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i lunio trefn flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau;

    (a) Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. (Pan fo mwy wedi dewis nag o leoedd sydd ar gael, mae'r Cyngor yn pennu blaenoriaeth drwy ystyried oed y brawd neu'r chwaer ieuengaf sydd yn yr ysgol a'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf).

    (b) Plant yn nhrefn gronolegol dyddiadau geni, yr hynaf yn cael ei dderbyn gyntaf. Os bydd dau neu ragor o blant yn rhannu'r un pen-blwydd rhoddir blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf i'r ysgol fel y mesurir gan yn llwybr cerdded byrraf, y rhai sy'n byw agosaf fydd â'r flaenoriaeth. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

3. Plant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol (31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth) ac y mae'r Cyngor yn barnu bod rhesymau meddygol neu gymdeithasol cryf i'w derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol, h.y. plant yr argymhellir eu lleoli am resymau meddygol, seicolegol neu addysgo arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath).

4. Plant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol (31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth) ac sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y disgwylir derbyn plentyn ynddi. (Pan fo mwy wedi dewis nag o leoedd sydd ar gael, mae'r Cyngor yn pennu blaenoriaeth drwy ystyried oed y brawd neu'r chwaer ieuengaf sydd yn yr ysgol a'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf).

**Derbyn yn Nhymor y Gwanwyn** (Wedi eu dyrannu ym Mis Hydref i gychwyn ym mis Ionawr)

5. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Rhagfyr pan fo tystiolaeth wedi ei darparu i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu eu bod wedi derbyn gofal yn flaenorol, gan awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

6. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Rhagfyr, ac sy'n byw o fewn dalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn derbyn ffurflenni dewis. Bydd angen tystiolaeth o'r breswylfa barhaol. Pan fo mwy o alw nag o leoedd yn y categori hwn yn unig, bydd y meini prawf ym mhwynt 2 uchod, yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i lunio trefn flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau.

   Bydd pob cais arall yn cael eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio pwyntiau 3 a 4 uchod.

**Derbyn yn Nhymor yr Haf** (dyrannu ym mis Ionawr i gychwyn ym mis Ebrill)

7. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Mawrth pan fo tystiolaeth wedi ei darparu i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu eu bod wedi derbyn gofal yn flaenorol, gan awdurdod lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

8. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Mawrth, ac sy'n byw o fewn dalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn derbyn ffurflenni dewis. Bydd angen tystiolaeth o'r breswylfa barhaol. Pan fo mwy o alw nag o leoedd yn y categori hwn yn unig, bydd y meini prawf ym mhwynt 2 uchod, yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i lunio trefn flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau.

   Bydd pob cais dalgylch arall yn cael eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio pwyntiau 3 a 4 uchod.

**Ceisiadau sy'n Weddill**

9. Pan fo lleoedd yn dal ar gael wedi dyrannu yn ôl y meini prawf uchod, bydd y gweddill yn cael eu dyrannu i blant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol (31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth) gyda blaenoriaeth i'r rhai sy'n bwy agosaf i'r ysgol/dosbarth meithrin yn ôl y llwybr cerdded byrraf, gyda'r rhai sy'n byw agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

**<u>Cyllid Blynyddoedd Cynnar</u>**

Gall rhieni hefyd wneud cais am gyllid addysg feithrin gyda darparwr cofrestredig wedi ei gymeradwyo gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg. Pan fydd rhieni'n dewis lle gyda darparwr blynyddoedd cyntaf cofrestredig, dim ond cyllid ar gyfer lle rhan amser fydd ganddynt hawl iddo, waeth a ydy'r lled wedi ei gynnig ar sail rhan amser neu lawn amser. Dim ond ar gyfer sesiynau y darperir addysg blynyddoedd cynnar ynddynt y rhoddir cyllid.

## ADDYSG GYNRADD

Gall disgyblion oed dosbarth derbyn eu derbyn yn llawn amser i ysgol ym mis Medi'r flwyddyn academaidd y byddan nhw'n cyrraedd eu pump oed ynddi, h.y. y mis Medi ar ôl pen-blwydd plentyn yn bedair oed. Nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol, a gall rhieni ddewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol tan yn hwyrach yn y flwyddyn, gan fydd eu plant o oed ysgol statudol. Mater o drafod yn unigol rhwng rhieni ac ysgolion fydd hyn. Diffinnir oed ysgol statudol fel cychwyn y tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin o anghenraid yn golygu bod hawl gan blentyn i le yn y dosbarth derbyn yn yr un ysgol.

Mae angen i rieni nodi dewis ysgol i'w plentyn ei mynychu/trosglwyddo iddi, hyd oes os mai ysgol eu dalgylch yw hi. Yn ystod tymor yr hydref, bydd rhieni'n cael eu gwahodd i enwebu eu hysgol gynradd o ddewis ar gyfer y mis Medi canlynol, drwy gwblhau'r ffurflen gais berthnasol. Bydd rhieni'n cael eu hysbysu o'r penderfyniadau yn ôl yr amserlen sydd wedi eu darparu. Ni ellir gwarantu y gellir gwireddu dewis rhiant ymhob achos, gan y gall ceisiadau am rai ysgolion fod yn fwy niferus na'r lleoedd sydd ar gael.

Wrth benderfyniadau ynghylch derbyn, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais unigol a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis fydd yn cael eu hystyried yn y rownd gychwynnol o ddyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni dewis eraill a dderbynnir yn cael eu hystyried fel ceisiadau hwyr.

Lle y caiff ysgol ei henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol arbennig, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol. O 1 medi 2021, mae adran 48 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraeth ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os enwir yr ysgol yng nghynllun datblygu unigol y plentyn at ddibenion yr adran honno, sef sicrhau mynediad y plentyn i'r ysgol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol er gwaethaf er gwaethaf y cyfyngiadau ar faint dosbarthiadau babanod a hyd yn oed pe buddai derbyn y plentyn yn arwain at yr ysgol yn fwy na'i rhif derbyn. Mae'r ddyletswydd i dderbyn yn berthnasol bob amser, gan gynnwys lle mae ysgol wedi'i henwi mewn i'r rownd dderbyn arferol. Pan fo hyn yn hysbys i'r awdurdod derbyn, bydd lle yn cael ei ddyrannu i'r plentyn cyn i ymgeiswyr eraill gael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio.

Fel arfer bydd derbyniadau i ysgolion cynradd yn cael eu caniatáu os nad yw nifer derbyn yr ysgol (a therfynau dosbarth statudol, pan yn berthnasol) yn cael eu pasio. Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau am le mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r y meini prawf derbyn, yn nhrefn blaenoriaeth, a nodir isod. Ni fydd y Cyngor fel arfer yn mynd yn uwch na nifer derbyn ysgol pan fo hyn ar waith.

### Meini Prawf Gordanysgrifio

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant sy'n byw o fewn dalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig derbyn ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os oes rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y

categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

3. Plant nad ydynt yn byw ar hyn o bryd yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol, ond y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn i'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo ddechrau. Os oes rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

4. Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath). Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (5) a (6), yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.

5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol o Ddosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr o'r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu llefydd mewn perthynas ag oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.

6. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion mewn perthynas â disgyblion eraill yn y grŵp oedran, bydd y Cyngor yn ystyried yn benodol agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol, a gaiff ei fesur gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosach yn cael blaenoriaeth. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

**<u>ADDYSG UWCHRADD</u>**

Mae plant fel arfer yn trosglwyddo i ysgol uwchradd yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed. Yn nhymor yr hydref, bydd rhieni'n cael eu gwahodd i enwebu eu hysgol uwchradd o ddewis erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Ni ellir gwarantu y gellir gwireddu dewis rhiant ymhob achos, gan y gall ceisiadau am rai ysgolion fod yn fwy niferus na'r lleoedd sydd ar gael. Bydd y Cyngor yn ceisio gwireddu dymuniad rhieni pan yn bosibl, cyn belled â bod lleoedd ar gael ac nad yw nifer derbyn yr ysgol wedi ei gyrraedd.

Wrth benderfyniadau ynghylch derbyn, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais unigol a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Dim ond ceisiadau a ddaw i law ar gyfer dyddiad cau cyhoeddedig derbyn ffurflenni dewis fydd yn cael eu hystyried yng nghylch cychwynnol dyrannu lleoedd. Bydd ffurflenni dewis eraill a ddaw i law yn cael eu hystyried yn geisiadau hwyr.

Lle y caiff ysgol ei henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol arbennig, mae dyletswydd ar y Cyngor i dderbyn y plentyn i'r ysgol. O 1 medi 2021, mae adran 48 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraeth ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os enwir yr ysgol yng nghynllun datblygu unigol y plentyn at ddibenion yr adran honno, sef

sicrhau mynediad y plentyn i'r ysgol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol er gwaethaf er gwaethaf y cyfyngiadau ar faint dosbarthiadau babanod a hyd yn oed pe buddai derbyn y plentyn yn arwain at yr ysgol yn fwy na'i rhif derbyn. Mae'r ddyletswydd i dderbyn yn berthnasol bob amser, gan gynnwys lle mae ysgol wedi'i henwi mewn i'r rownd dderbyn arferol. Pan fo hyn yn hysbys i'r awdurdod derbyn, bydd lle yn cael ei ddyrannu i'r plentyn cyn i ymgeiswyr eraill gael eu hasesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio.

Bydd derbyn i ysgolion fel arfer yn cael ei ganiatáu os nad yw nifer derbyn yr ysgol wedi'i gyrraedd. Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau am le mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn, yn nhrefn blaenoriaeth, a nodir isod.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

1. Plant lle mae tystiolaeth wedi ei chyflwyno eu bod yn derbyn gofal neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant sy'n byw o fewn dalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig derbyn ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa plentyn os gofynnir am hynny. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (4), (5) (6) a (7), yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.

3. Plant nad ydynt yn byw yn nalgylch penodol yr ysgol, ond y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn i'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo ddechrau. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (4), (5) (6) a (7), yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.

4. Disgyblion a oedd ar y gofrestr mewn ysgol gynradd fwydo flaenorol cyn i drefniadau'r ysgol fwydo gael eu tynnu'n ôl ym mis Medi 2020.Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (5), (6) a (7) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

5. Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath). Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (6) a (7) yn berthnasol.

6. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol ym Mlynyddoedd 7 i 11 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr o'r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd gan gyfeirio at oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf a gaiff y flaenoriaeth uchaf.

7. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion mewn perthynas â disgyblion, bydd y Cyngor yn ystyried yn benodol agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol uwchradd, a gaiff ei fesur gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosaf

yn cael blaenoriaeth. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

## Nifer Derbyn: Medi 2023/24

**(MAE'R NIFEROEDD DERBYN CANLYNOL YN DAL I GAL EU HADOLYGU A GALLENT NEWID AR ÔL YMGYNGHORI GYDA'R GWAHANOL YSGOLION).**

| Enw'r Ysgol: | Nifer Derbyn |
|---|---|
| **Ysgolion Uwchradd** | |
| Ysgol Uwchradd Pencoedtre | 210 |
| Ysgol Uwchradd Whitmore | 180 |
| Ysgol Gyfun y Bont-faen | 240 |
| Ysgol Llanilltud Fawr | 180 |
| Ysgol Sant Cyres | 210 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | 163 |
| Ysgol Stanwell | 299 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 240 |
| | |
| **Ysgolion Cynradd** | |
| Ysgol Gynradd Albert | 55 |
| Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys Yng Nghymru | 30 |
| Ysgol Gynradd Ynys y Barri | 30 |
| Ysgol Gynradd Tregatwg | 60 |
| Ysgol Gynradd Cogan | 30 |
| Ysgol Gynradd Colcot | 45 |
| Ysgol Gynradd Dinas Powys | 60 |
| Ysgol Cowbridge (Cyfnod Cynradd) | 30* |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Evenlode | 60 |
| Ysgol Gynradd Fairfield | 45 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 60 |
| Ysgol Gynradd Gwenfô | 30 |
| Ysgol Gynradd High Street | 30 |
| Ysgol Gynradd Holton | 60 |
| Ysgol Gynradd Parc Jenner | 30 |
| Ysgol Gynradd Llandochau | 30 |
| Ysgol Gynradd Llanfair | 20 |
| Ysgol Gynradd Llan-gan | 15 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Llansanwyr | 30 |
| Ysgol Gynradd Oak Field | 30 |
| Ysgol Gynradd Palmerston | 30 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Pendeulwyn | 30 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro | 27 |
| Ysgol Gynradd Rhws | 53 |
| Ysgol Gynradd Romilly | 90 |
| Ysgol Gynradd Trwyn y De | 30 |
| Ysgol Gynradd Sant Andrew'r Eglwys yng Nghymru | 30 |
| Ysgol Gynradd Sain Tathan | 30 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Sant-y-brid | 30 |
| Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Eglwys yng Nghymru | 30 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen | 44 |
| Ysgol Gynradd Sant Illtud | 54 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff | 30 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas | 18 |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Sili | 50 |
| Ysgol Gynradd Victoria | 60 |
| Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru | 22 |
| Ysgol Gynradd y Bont-faen | 30 |
| Ysgol Gwaun Y Nant | 60 |
| Ysgol Gymraeg Dewi Sant | 30 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 30 |
| Ysgol Gymraeg Pen y Garth | 60 |
| Ysgol Iolo Morgannwg | 30 |
| Ysgol Sant Baruc | 60*(30 am flynyddoedd 2 – 6) |
| Ysgol Sant Curig | 60 |
| Ysgol Y Ddraig | 60 |

*Mae rhif mynediad yn ymwneud a'r derbyniad a dosbarthiadau blwyddyn 1 yn unig fel rhan o gofnod grŵp blwyddyn fesul cam oherwydd gweithredu cynigion trefniadaeth ysgolion o fis Medi 2022.